# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - PREIFAT

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:30 – 13:00 | 16/04/24 | Galwad Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn bresennol | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Julie Ash | JA | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | IGDC |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro | PCGC |
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Andrew Francis | AF | Arweinydd Cynllunio Argyfwng | IGDC |
| Gareth Lavington | GL | Pennaeth Atal Twyll | Caerdydd a'r Fro |
| Martyn Lewis | ML | Rheolwr Archwilio | Archwilio Cymru |
| Carwyn Lloyd Jones | CLJ | Prif Swyddog Cwmwl | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |

| Ymddiheuriadau | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | FfAS | Fframwaith Asesu Seiber |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | LlG | Llywodraethu Gwybodaeth |
| CPB | Cynllun Parhad Busnes | WPAS | System Gweinyddu Cleifion Cymru |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod preifat y Pwyllgor. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau absenoldeb**<br>Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br>Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | BUSNES Y CYFARFOD | | |
| 2.1 | **Cofnodion y Cyfarfod Preifat a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 3 | ARCHWILIO, ATAL TWYLL A RISGIAU | | |
| 3.1 | **Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)**<br>Cyflwynodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol y Camau Archwilio ar gyfer y sesiwn breifat | Nodwyd. | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a thynnodd sylw at y canlynol:<br><br>Yn dilyn cyngor gan Archwilio Mewnol, roedd yr un cam gweithredu a oedd yn dibynnu ar drydydd parti yn cael ei reoli trwy gofnod ar wahân ar gyfer olrhain. Adolygwyd pedwar cam gweithredu yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Derbyniwyd un adroddiad yn y cyfarfod diwethaf, sef Systemau TG a Gynhelir yn Genedlaethol, a oedd yn cynnwys cyfanswm o 11 o gamau gweithredu newydd. Ychwanegwyd y rhain at y Cofnod Gweithredu Archwilio Preifat sydd bellach yn cynnwys cyfanswm o 14 o gamau gweithredu. Nododd y Pwyllgor yr ystyriwyd bod saith wedi'u cwblhau a bod chwech ar darged i'w cwblhau erbyn eu dyddiad targed, ond roedd un cam gweithredu wedi mynd heibio'r dyddiad gweithredu a gofynnwyd am estyniad i 1 Mai 2024 i'w gymeradwyo.<br><br>Dywedodd Carwyn Lloyd Jones, Prif Swyddog Cwmwl (CLJ) fod y templed ar gyfer gweithredu (DHCW-2223-112.1Arg-2.1) bellach wedi'i gwblhau ac y gellid ei gau, ac yn sgil colli rhai aelodau o staff, roedd hyn wedi achosi rhai problemau o ran cyflawni'r camau gweithredu yn amserol.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol wedi'i amserlennu ar gyfer yr ychydig wythnosau nesaf lle bydd adroddiadau seiber yn cael eu craffu'n rheolaidd a bod y tîm yn rheoli'r llwyth gwaith ar hyn o bryd, gyda'r gwaith recriwtio'n mynd rhagddo a chyda'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth newydd i ddechrau ddechrau mis Mai.<br><br>Bu'r Pwyllgor yn trafod cynllunio ar gyfer olyniaeth a nodi meysydd allweddol ac awgrymodd y dylid ymchwilio'n ddwfn yn y maes hwn ar adeg briodol.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** diweddariad ar Gamau Archwilio ar gyfer **SICRWYDD** a **CHYMERADWYO** ymestyn yr un cam gweithredu a amlinellir yn 4.5. | | |
| 3.2 | **Adroddiad ar Adolygiad Archwilio Mewnol Parhad Busnes (Ransomware)**<br><br>Cyflwynodd Stephen Chaney, Pennaeth Archwilio Mewnol PCGC yr Adolygiad Archwilio Parhad Busnes (Ransomware) a chadarnhaodd fod yr archwiliad wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan gyda sgôr Sicrwydd Rhesymol.<br><br>Ychwanegodd Martyn Lewis, Archwiliwr i PCGC (ML), y byddai unrhyw amhariad i IGDC yn fewnol yn arwain at gychwyn BCP. | Nodwyd | **Cam Gweithredu A01** Dylid derbyn yr adroddiad mewnol ar y cyd terfynol ynghylch y rhaglen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Atgoffwyd y Pwyllgor fod adferiad mewn trychineb yn wahanol i gael pethau yn ôl i redeg fel arfer.<br><br>Ymatebodd Andrew Francis, Pennaeth Cynllunio at Argyfwng (AF), ei fod yn adroddiad cydweithredol iawn a bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y camau gweithredu.<br><br>**Adolygiad Gofal Llygaid**<br><br>Rhoddodd SC ddiweddariad i'r adolygiad Gofal Llygaid a noddir ar y cyd â Chaerdydd a'r Fro a dywedodd fod yr archwiliad wedi bod yn heriol, gan nodi bod yr adolygiad wedi'i gomisiynu ym mis Hydref 2023.<br><br>Dywedodd SC fod yr adroddiad drafft wedi'i anfon i Adran Gaffael PCGC yn bennaf er mwyn sicrhau ffeithiau a chywirdeb.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn a bod y trafodion caffael yn ddiogel i barhau â'r contract presennol. Cadarnhaodd SC fod yr holl faterion o'r adolygiad archwilio mewnol wedi'u datrys, ond roedd angen eglurder ynghylch a oedd cyllid ar gael.<br><br>Cytunwyd pan fyddai'r adroddiad terfynol yn dod i law yn y cyfarfod nesaf y byddai'n ddefnyddiol cael presenoldeb PCGC i ateb unrhyw gwestiynau.<br><br>**CAM GWEITHREDU: 16042024-A01** Dylid derbyn yr adroddiad terfynol yng nghyfarfod mis Gorffennaf a chynrychiolwyr caffael PCGC i'w gwahodd i ymateb i unrhyw gwestiynau.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Adolygiad Archwilio Mewnol i Barhad Busnes ar gyfer **SICRWYDD** a **NODI'R** diweddariad llafar ar statws yr Adolygiad Gofal Llygaid | | Gofal Llygaid yng nghyfarfod mis Gorffennaf a chynrychiolwyr caffael i'w gwahodd i ymateb i unrhyw gwestiynau. |
| 4 | **MATERION I GLOI** | | |
| 4.1 | **Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd**<br>• Statws adolygiad gofal llygaid<br>• Parhad Busnes - Ransomware<br>• Cynnydd ar Gamau Archwilio | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | **Unrhyw Faterion Brys Eraill**<br><br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion Busnes Brys eraill. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.3 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:** 9 Gorffennaf 2024<br><br>Daethpwyd y cyfarfod i ben am 13:17pm. | Nodwyd | Dim i'w nodi |